**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@Senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

24 Mehefin 2022

Amserlen ar gyfer cyhoeddi cyllideb ddrafft a chyllideb derfynol 2023-24

Annwyl Rebecca,

Diolch i chi am eich llythyr ynghylch yr amserlen ar gyfer y gyllideb ddrafft. Rwy'n croesawu'n fawr y ffordd agored a thryloyw yr ydych wedi ymgysylltu â'r Pwyllgor ac yn gobeithio ein bod yn gallu parhau i gydweithio i ddod o hyd i atebion ymarferol ac effeithiol.

Yr opsiwn a ffafrir gan y Pwyllgor yw i'r gyllideb ddrafft gael ei chyhoeddi ddechrau mis Hydref. Byddai gwneud hyn yn rhoi cymaint o amser â phosibl ar gyfer gwaith craffu, fel y darperir gan brotocol y gyllideb, a'r lefel fwyaf o sicrwydd i randdeiliaid. Fodd bynnag, er ei bod yn siom eich bod yn ystyried amserlen fyrrach eto eleni, rydym yn derbyn efallai nad yw cadw at amserlenni hwy yn beth dymunol rhag ofn y bydd y gyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24 yn newid yn sylweddol yn sgil digwyddiad cyllidol hydref y DU.

Mae'r dull amgen o ohirio cyhoeddi'r gyllideb ddrafft tan ar ôl digwyddiad o'r fath, ar 19 Rhagfyr 2022, yn peri anawsterau sylweddol. Os ffafrir opsiwn o'r fath, hon fydd y bedwaredd flwyddyn yn olynol nad fydd proses dau gam y gyllideb yn cael ei defnyddio oherwydd "amgylchiadau eithriadol". Wedi dweud hynny, rydym yn cydnabod eich rhesymau dros ohirio cyhoeddi'r gyllideb ddrafft o ystyried yr ansicrwydd ynghylch cwantwm y cyllid y gallai Llywodraeth Cymru ei chael neu beidio.

Os bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r gyllideb ddrafft yn ddiweddarach yn y flwyddyn, bydd y Pwyllgor yn gofyn am sicrwydd a fyddai'n lliniaru'r effaith y bydd amserlen fyrrach yn ei chael ar waith craffu'r Senedd ar y gyllideb.

## Gwneud y mwyaf o’r amser sydd ar gael ar gyfer craffu

Er bod y Pwyllgor yn croesawu’r ymrwymiad i gyhoeddi’r gyllideb ddrafft cyn gynted ag y bo’n ymarferol bosibl ar ôl digwyddiad cyllidol yr hydref, mae’r Pwyllgor o’r farn bod angen rhagor o fanylion ynghylch yr amseru ar gyfer cyhoeddi’r gyllideb ddrafft. Yn benodol, ni welwn unrhyw reswm na allwch ymrwymo i gyhoeddi’r gyllideb ddrafft o fewn tair wythnos i ddyddiad cyllideb yr hydref, neu ar 19 Rhagfyr, pa un bynnag sydd gynharaf. Mae hyn yn dilyn dull tebyg a fabwysiadwyd yn yr Alban, lle mae’n ofynnol i Lywodraeth yr Alban osod ei chyllideb ddrafft gerbron Senedd yr Alban o fewn tair wythnos i ddatganiad yr hydref.

Rydym hefyd yn nodi, os caiff y gyllideb ddrafft ei gosod mor hwyr â 19 Rhagfyr, bydd yr amser ar gyfer craffu yn llai na’r wyth wythnos sy’n ofynnol o dan brotocol y gyllideb. Mae hyn yn cyfateb i hanner yr amser (pedair wythnos eistedd) a ddylai gael ei neilltuo ar gyfer craffu, wedi ystyried wythnosau'r toriad. Yn y senario “waethaf” hon, byddai’r Pwyllgor hefyd yn gofyn ichi ystyried gwthio yn ôl y ddadl ar y gyllideb ddrafft a dyddiad cyhoeddi’r gyllideb derfynol i ganol mis Mawrth, fel y byddai cymaint o amser ychwanegol â phosibl ar gael i gynnal gwaith craffu.

## Cyfleoedd ychwanegol ar gyfer craffu

Mae’r Pwyllgor yn croesawu’r mesurau pellach yr ydych yn eu hawgrymu i gefnogi’r gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft cyn ei chyhoeddi, yn enwedig o ran cyfleoedd i ymgysylltu â Phrif Economegydd Llywodraeth Cymru ynglŷn â sut mae’r amodau economaidd a chyllidol yn effeithio ar gyllid Llywodraeth Cymru, ei blaenoriaethu a’i gallu i gyflawni ymrwymiadau cyfredol, yn ogystal â thrafod themâu sy'n codi o ddigwyddiadau'r Pwyllgor ar gyfer rhanddeiliaid ar faterion sy'n ymwneud â Chynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer Gwella’r Gyllideb.

Er mwyn manteisio i’r eithaf ar y cyfleoedd hyn, mae’r Pwyllgor am gynnal sesiwn dystiolaeth cyn y gyllideb ychwanegol gyda chi yn gynnar yn nhymor yr hydref. Mae’r Pwyllgor yn sylweddoli efallai na fyddwch yn gallu rhannu manylion y gyllideb ddrafft â’r Aelodau ar hyn o bryd, ond byddai sesiwn o’r fath yn eich galluogi i roi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor am sefyllfa gyllido Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am amseriad digwyddiad cyllidol yn yr hydref. Byddai hyn hefyd yn gweithredu fel mesur pontio rhwng y ddadl ar flaenoriaethau’r Pwyllgor ar 13 Gorffennaf a dyddiad cyhoeddi’r gyllideb ddrafft.

## Adolygu protocol y gyllideb

Fel rhan o'i raglen waith, bydd y Pwyllgor yn adolygu protocol y gyllideb rywbryd yn ystod y Senedd bresennol i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn addas at y diben. Fodd bynnag, mae profiad y blynyddoedd diwethaf yn awgrymu y dylid dwyn gwaith o’r fath ymlaen fel y gellir gwneud newidiadau cyn y cylch cyllidebol ar gyfer 2024-25. Fel y soniwyd yn flaenorol, mae’r ffaith bod Llywodraeth y DU yn canolbwyntio mwy ar gynnal cyhoeddiadau cyllidol yn yr hydref wedi golygu bod prosesau cyllidebol fyrrach yn mynd yn gyffredin, ac nid yw’r Pwyllgor am wynebu trafodaethau

tebyg ynghylch materion amserlennu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Gan hynny, gofynnwn ichi gydnabod bod angen adolygu protocol y gyllideb yn gynt yn hytrach na hwyrach, a gofynnwn ichi ymrwymo i weithio gyda'r Pwyllgor i ddatblygu proses a phensaernïaeth i'r gyllideb sy'n gadarn, yn ystwyth ac yn adlewyrchu statws y Senedd fel deddfwrfa genedlaethol.

Fel y dywedwch, mae craffu yn rhan hanfodol o broses y gyllideb ac mae'n helpu i wella'r gyllideb derfynol sy'n cael ei hystyried gan y Senedd. Fodd bynnag, dim ond o wneud pob ymdrech i ganiatáu digon o amser a chyfleoedd i'r Senedd edrych yn fanwl ar gynigion y gyllideb y gellir craffu'n effeithiol.

Edrychwn ymlaen at drafod yr amserlen fanwl, ar ôl iddi gael ei chyhoeddi, a gwerthfawrogwn eich ymgysylltiad parhaus ar y mater hwn.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.